Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon
www.culture.gov.uk

Tachwedd 2005

Arweiniad i bartïon sydd â diddordeb:
Apelio yn erbyn Penderfyniadau Trwyddedu

Mae'r arweiniad hwn yn disgrifio'r broses o apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod trwyddedu ynghylch cais am drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb newydd neu amrywiad i drwydded neu dystysgrif presennol neu ddatganiad dros dro. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y broses gwrandawiadau. Oni noder yn wahanol, mae cyfeiriadau at 'drwyddedau' yn y testun hwn hefyd yn berthnasol i dystysgrifau mangre clwb.

Pwy sy'n gallu apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod trwyddedu?

Mewn perthynas â thrwyddedau mangre, mae gan "bartïon sydd â diddordeb", a gyflwynodd sylwadau perthnasol yn ystod y broses o wneud cais, yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod trwyddedu yn y llysoedd, os ydynt o'r farn:

- Na ddylid fod wedi caniatáu'r drwydded
- Dylai'r awdurdod trwyddedu fod wedi gosod amodau gwahanol neu ychwanegol ar y drwydded
- Dylid fod wedi eithrio gweithgaredd trwyddedadwy o'r drwydded
- Ni ddylai'r awdurdod trwyddedu fod wedi cytuno i'r "goruchwyliwr mangre" a enwyd (nid yw hyn yn berthnasol ar gyfer tystysgrif mangre clwb)
- Bod afreoleidd-dra gweithdrefnol wedi digwydd, a bod hynny wedi effeithio ar y penderfyniad (e.e. bod y pwyllgor trwyddedu wedi methu cydymffurfio â rheoliadau gwrandawiad)

Mae'n rhaid i unrhyw apêl ymdrin ag effaith tebygol caniatáu cais ar unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu canlynol:

- Atal trosedd ac anhrefn;
- Diogelwch y cyhoedd;
- Atal niwsans cyhoeddus; ac

- ❖ Amddiffyn plant rhag niwed

Sut mae mynd ati i gyflwyno apêl?

Dylid cyflwyno apêl yn ysgrifenedig i swyddog dynodedig llys ynadon yr ardal lle lleolir y fangre. Mae'n rhaid cyflwyno apêl o fewn **21 diwrnod** i'r diwrnod yr hysbyswyd y sawl sy'n apelio o benderfyniad yr awdurdod trwyddedu ynghylch y cais. Efallai y bydd rhai sy'n apelio am wirio'r union ddyddiad gyda'r awdurdod trwyddedu.

Mae rhai llysoedd wedi creu "ffurflen apelio" er mwyn hwyluso'r broses; fodd bynnag, nid oes yno un ford neu weithdrefn benodol, felly dylai'r rhai sydd yn apelio gysylltu â'r llys ynadon perthnasol er mwyn canfod sut i gyflwyno apêl. Mae'n rhaid talu ffi o **£75:00** i'r llys ynadon wrth gyflwyno apêl.

Beth sy'n digwydd unwaith y mae apêl wedi'i gyflwyno?

Ar ôl i apêl ddod i law, mae gan lys ynadon dri dewis. Fe all wneud y canlynol:

- ❖ Gwrthod yr apêl
- ❖ Disodli'r penderfyniad y cyflwynir apêl yn ei erbyn ag unrhyw benderfyniad arall y gallai'r awdurdod trwyddedu fod wedi'i wneud
- ❖ Anfon yr achos yn ôl i'r awdurdod trwyddedu a dweud wrtho sut i ymdrin â'r achos yn unol â chyfarwyddyd y llys.

Fe allai'r llys hefyd gyhoeddi gorchmynion costau fel y gwêl yn briodol.

Fel rheol cynhelir **"gwrandawiad apêl cychwynnol"** yn y llys ynadon o leiaf 28 diwrnod ar ôl y cyfnod '21 diwrnod' ar gyfer cyflwyno apêl. Dyma pryd bydd y llys yn penderfynu a oes yno achos i'w wrando, ac a fydd yn gwrando'r achos ei hun neu yn ei anfon yn ôl i sylw'r awdurdod trwyddedu. Wrth wneud hyn, bydd y llys yn ystyried a yw'r apêl yn ddilys ac a yw'r achos a amlinellwyd yn yr apêl wedi'i herio. Lle bydd llys yn penderfynu gwrando'r achos ei hun, fel rheol bydd yn gohirio'r achos tan ddyddiad **"gwrandawiad llawn"** er mwyn penderfynu ar yr achos, pan fydd amser llys digonol ar gael.

Gan fod awdurdod trwyddedu yn barti i apêl bob tro, awgrymir y dylai partïon sydd â diddordeb gysylltu â'u hawdurdod trwyddedu er mwyn canfod a oes parti arall neu'r sawl sy'n gwneud cais wedi cyflwyno apêl.

[DS - Os yw'r sawl sy'n gwneud cais yn apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod trwyddedu, ni fydd awdurdodau megis yr heddlu, a phartïon sydd â diddordeb megis trigolion lleol, a gyflwynodd sylwadau am y cais, yn ôl telerau'r Ddeddf Trwyddedu yn "bartïon ymatebol" mewn gwrandawiadau apêl. Fodd bynnag, mewn achosion o'r fath, fe allai parti sydd â diddordeb ofyn i'r llys ei wneud yn barti ymatebol, neu fe allai'r awdurdod trwyddedu ei alw fel "tyst" i gefnogi ei benderfyniad gwreiddiol].

Y drefn mewn gwrandawiadau apêl

Bydd gwrandawiadau apêl yn digwydd yn llys ynadon yr ardal lle lleolir y fangre. Yr awdurdod trwyddedu a'r sawl a gyflwynodd y cais fydd y "partïon ymatebol" (ymatebwyr) i apêl gan bartïon sydd â diddordeb ac fel rheol byddant yn bresennol

mewn gwrandawiadau apêl. Dylai partïon sydd â diddordeb gysylltu â'u llys i ddarganfod a fydd angen iddynt ymddangos mewn gwrandawiad. Efallai y bydd yn bosib mewn rhai achosion i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig mewn llys yn lle hynny, fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i lysoedd ynadon dderbyn tystiolaeth ysgrifenedig ac fe allant fynnu bod y partïon yn mynychu'r gwrandawiad yn bersonol, felly dylid ceisio cytundeb ymlaen llaw.

Mewn gwrandawiad byddai'r sawl sy'n apelio fel rheol yn agor yr achos a galw ei d/thystion. Fodd bynnag, mewn achosion trwyddedu fe allai'r llys wahodd yr ymatebwyr (h.y. deiliad y drwydded neu'r dystysgrif) i siarad gyntaf, os yw pawb yn cytuno â hynny, er mwyn galluogi'r llys i ddeall sut y daeth yr awdurdod trwyddedu i'w benderfyniad. Fe all pob parti mewn gwrandawiad apêl alw tystion i roi tystiolaeth i gefnogi eu safbwynt (e.e. trigolion lleol eraill neu awdurdodau cyfrifol megis yr heddlu).

Costau

Os ydych yn apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod trwyddedu, ac os ydych yn aflwyddiannus, fe all y llys ynadon ddyfarnu costau yn eich erbyn, fel y gwêl yn briodol. Byddai hynny'n golygu bod angen i chi dalu costau cyfreithiol y partïon eraill yn ogystal â'ch costau chi'ch hun. **Fodd bynnag, mae Cymdeithas yr Ynadon a Chymdeithas Clercod yr Ynadon wedi cynghori y dylai dyfarnu costau mewn apêl trwyddedu fod yn eithriad yn hytrach na rheol, ac na ddylid cosbi unrhyw drigolion sydd â sail resymol i'w hapêl.**

Beth sy'n digwydd ar ôl apêl?

Ar ôl gwrandawiad apêl, bydd y llys fel rheol yn hysbysu'r awdurdod trwyddedu a'r partïon eraill o'i benderfyniad, a'r rhesymau am hynny, o fewn tri diwrnod gwaith.

Nid yw Deddf Trwyddedu 2003 yn darparu ar gyfer apêl pellach yn erbyn penderfyniad y llys ynadon. Yn unol â hynny, bydd y rheolau arferol ar gyfer herio penderfyniadau llysoedd ynadon yn berthnasol.

DS - Ni bydd llysoedd yn cyhoeddi gorchmynion sy'n gohirio effeithiau unrhyw benderfyniad awdurdod trwyddedu, wrth aros i wrando apêl. Bydd penderfyniad yr awdurdod trwyddedu yn dod i rym ar unwaith, hyd nes y bydd canlyniad unrhyw apêl yn wybyddus.

Nid yw'r arweiniad yma yn manylu ynghylch materion megis natur y gwrandawiad llys gyda golwg ar safon y dystiolaeth, rôl polisi trwyddedu ayb. Dylai'r sawl sy'n gwneud cais gysylltu â'r llys perthnasol am gyngor pellach.

Mae Atodlen 5 Deddf Trwyddedu 2003 a Phennod 10 Arweiniad yr Ysgrifennydd Gwladol i awdurdodau trwyddedu yn ymdrin ag apeliadau. Am fwy o arweiniad am y broses apelio, cysylltwch â'r llys ynadon perthnasol.